CYNLLUN CYHOEDDI CYNGOR GWLEDIG LLANELLI

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor fel awdurdod cyhoeddus bob amser wedi bod mor agored â phosibl ynglŷn â gwybodaeth a'r gwaith a wna. Fodd bynnag, er mwyn datblygu diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw yn y sector cyhoeddus, mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael.

Derbyniodd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) Ganiatâd Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000. Mae'n rhoi hawl gyffredinol i gael mynediad i bob math ar wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, yn nodi'r eithriadau i'r hawl honno, ac yn gosod nifer o rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus. Rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud cais i awdurdod cyhoeddus am wybodaeth gael gwybod a yw'r wybodaeth honno gan yr awdurdod cyhoeddus neu beidio, a derbyn y wybodaeth honno, yn amodol ar rai eithriadau.

Mae'r hawl eisoes gan unigolion i gael mynediad i wybodaeth amdanynt eu hunain o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mor bell ag y mae awdurdodau cyhoeddus yn y cwestiwn, bydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn yr hawl honno i ganiatau mynediad i'r cyhoedd i bob math ar wybodaeth a gedwir.

Mae'n ofynnol ar bob corff cyhoeddus fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi. Rhaid i gynllun cyhoeddi:

1) nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddir neu y bwriedir eu cyhoeddi gan yr awdurdod cyhoeddus;

2) nodi'r modd y cyhoeddir neu y bwriedir cyhoeddi gwybodaeth pob dosbarth; a

3) nodi a yw'r deunydd ar gael i'r cyhoedd, neu a fwriedir iddo fod ar gael, yn ddi-dâl neu am dâl.

Er mwyn cwrdd â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Plwyf, Tref a Chymuned (a elwir gyda'i gilydd yn 'gynghorau lleol') yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r cynllun enghreifftiol a fabwysiadwyd gennym wedi'i gymeradwyo am y cyfnod o 28 Chwefror 2003 hyd 28 Chwefror 2007 gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am orfodi darpariaethau'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn ogystal â chymeradwyo cynlluniau cyhoeddi.

Os dymunwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw reswm, y cyfeiriad yw:

WYCLIFFE HOUSE
WATER LANE
WILMSLOW
SIR GAER
SK9 5AF

FFÔN: 01625 545700
FFACS: 01625 524510
E-BOST: mail@dataprotection.gov.uk
GWEFAN: www. dataprotection.gov.uk

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae cynllun y Cyngor yn nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddir ganddo neu y bwriada eu cyhoeddi. Mewn rhai achosion mae dosbarth o wybodaeth yn nodi ystod o wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi. Lle bo hynny'n wir, nodir yn glir y rhesymau dros benderfynu eithrio'r wybodaeth. Mae gwybodaeth eithriedig yn y cynllun drwyddi draw yn cynnwys gohebiaeth yn gyffredinol a anfonir neu a dderbynnir gan y Cyngor, a phob gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion preifat yn rhinwedd y ffaith mai data personol ydyw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mewn rhai dosbarthiadau cyfyngir ar ddyddiad rhai dogfennau. Nid yw hynny'n golygu na ellir cael copi o wybodaeth cyn y dyddiad hwnnw, ond nid yw'r wybodaeth honno ar gael fel mater o drefn o fewn y cynllun cyhoeddi.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir ym mhob dosbarth ar gael mewn copi caled dim ond gwneud cais i'r Clerc, neu gellir cael golwg ar y wybodaeth yn swyddfa'r Cyngor.

2. POLISI CODI TÂL

Os gofynnir am wybodaeth mewn copi caled, codir tâl i dalu am y costau. Mae manylion y tâl a godir am wybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun hwn wedi'i nodi isod. Os yw eich cais yn golygu y bydd yn rhaid i ni godi tâl arnoch yna byddwn yn gofyn i chi a ydych yn dymuno parhau â'r cais cyn i ni ymgymryd â'r gwaith. Bydd y tâl a godir yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Y meini prawf o ran codi tâl yw:

1) GWYBODAETH A DDARPERIR YN DDI-DÂL

Ni chodir tâl am gael golwg ar wybodaeth a gynhwysir yn ein cynllun cyhoeddi, nac ychwaith am wasanaethu'r ymholiadau ffôn a wneir mewn cysylltiad â'r wybodaeth honno.

2) COSTAU LLUNGOPÏO, POSTIO A GWEINYDDU

Codir tâl am ddarparu copïau o ddogfennau/gwybodaeth ym mhob dosbarth o'r cynllun cyhoeddi. Y tâl a godir ar hyn o bryd yw:

LLUNGOPÏO	–	10c fesul ochr tudalen
GWEINYDDU	-	£3.50
POSTIO	-	union gostau a chostau angenrheidiol

Fodd bynnag, lle mae'r costau postio yn llai na £1.00, ni chodir tâl gweinyddu.

3) Y TÂL A GODIR AM YR AMSER A GYMERIR I LEOLI A PHARATOI'R WYBODAETH I'W RHYDDHAU

Os gofynnwch am wybodaeth nad yw ar gael o dan y cynllun cyhoeddi, codir yr un tâl ag yn 2) uchod. Fodd bynnag, os yw'n cymryd dipyn o amser i gasglu neu i baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, codir tâl arnoch yn ogystal am yr amser a gymerodd i'r staff baratoi'r wybodaeth i'w rhyddhau. Bydd y tâl yn seiliedig ar raddfa yn ôl yr awr yr aelod o staff dan sylw.

3. CYFRIFOLDEB AM Y CYNLLUN CYHOEDDI

Clerc y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun. Gellir cysylltu ag ef yn y cyfeiriad isod:

CLERC Y CYNGOR
CYNGOR GWLEDIG LLANELLI
ADEILADAU VAUXHALL
VAUXHALL
LLANELLI
SA15 3BD

FFÔN: 01554 774103
FFACS: 01554 779250

E-BOST: markg@llanelli-rural.gov.uk

Y person sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun cyhoeddi o ddydd i ddydd yw:

DAWN JONES
CYNGOR GWLEDIG LLANELLI
ADEILADAU VAUXHALL
VAUXHALL
LLANELLI
SA15 3BD

FFÔN: 01554 774103
FfACS: 01554 779250

E-BOST: dawnj@llanelli-rural.gov.uk

4. PA MOR HIR Y BYDD YN CYMRYD I DDARPARU'R WYBODAETH A RESTRIR O DAN Y CYNLLUN

Anelwn at ddarparu gwybodaeth mor gyflym â phosibl. Fodd bynnag ni fydd yn cymryd mwy nag 20 diwrnod i ateb unrhyw gais, fel y nodir o dan Adran 10(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

5. Y CYNLLUN CYHOEDDI

Ceir manylion isod am y dosbarthiadau o wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun cyhoeddi a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Wrth i ddarnau newydd o wybodaeth sy'n gynwysedig yn un o'r dosbarthiadau gael eu creu, byddwn yn cynnwys ac yn cyhoeddi'r wybodaeth honno fel rhan o'n cynllun. Wrth i'r cynllun ddatblygu, ychwanegir mwy a mwy o wybodaeth gyda threigl amser.

Os derbyniwn geisiadau am ddadlennu gwybodaeth nad yw'n gynwysedig yn un o'r dosbarthiadau y cyfeirir atynt isod, byddwn yn ystyried y wybodaeth honno yn erbyn y cynllun, ac edrych ar gynnwys y wybodaeth honno yn y dyfodol wrth i'r cynllun ddatblygu.

DOSBARTH:	**ARFER A GWEITHDREFN FEWNOL Y CYNGOR**
DISGRIFIAD:	Cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau – a gyfyngir i'r ddwy flynedd diwethaf. Rheolau Sefydlog Gweithdrefn y Cyngor. Agendâu a phapurau ategol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau – yn gyfyngedig i'r cyfarfod nesaf/diwethaf. Cylch gwaith y Pwyllgorau.
DOSBARTH:	**COD YMARWEDDIAD**
DISGRIFIAD:	Datganiad yr Aelodau ar Dderbyn Swydd, Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, Llyfr Cofrestr Buddiannau'r Aelodau.

DOSBARTH: **ADOLYGIAD ETHOLAETHOL CYFNODOL**

DISGRIFIAD: Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â newidiadau i drefniadau etholaethol y Cyngor. Mae'n cynnwys creu wardiau newydd, newid wardiau sy'n bod eisoes, cynigion ar gyfer enwi wardiau newydd, a newidiadau i'r nifer o Gynghorwyr sydd i'w hethol ar y Cyngor.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn ymwneud â'r adolygiad etholaethol cyfnodol diwethaf o'r Cyngor a'r adolygiad diweddaraf o ffiniau ardal y Cyngor.

DOSBARTH: **ARFER A GWEITHDREFN CYFLOGAETH**

DISGRIFIAD: Telerau ac amodau cyflogaeth a disgrifiadau swydd . Dogfennau polisi gan gynnwys Cyfle Cyfartal a Iechyd a Diogelwch. Siart Strwythur Staffio.

NODER: Mae'r dogfennau canlynol wedi'u heithrio o'r cynllun: -
Cofnodion personol megis arfarnu; manylion cyflog gweithwyr penodol; cofnodion disgyblu; cofnodion salwch a'r cyffelyb yn rhinwedd y ffaith bod hyn yn wybodaeth bersonol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

DOSBARTH: **DOGFENNAU CYNLLUNIO**

DISGRIFIAD: Ymatebion i geisiadau cynllunio.

NODER: Mae'r dogfennau canlynol yn eithriedig o'r cynllun: - Copïau o ymgynghoriadau cynllunio, y Cynllun Datblygu Unedol, Hawliau Tramwy/mapiau Llwybrau Troed, ond mae pob un o'r rhain ar gael oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

DOSBARTH: **CYFRIFON AC ARCHWILIO CYFRIFON**

DISGRIFIAD: Adroddiad Archwilydd allanol – yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cofnodion Incwm a Gwariant, datganiadau banc pob cyfrif - yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.
Cais praesept - yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.
Cofnodion TAW - yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol. Cofrestr asedau – bydd hyn yn cynnwys holl asedau'r Cyngor, neuaddau cymunedol a llefydd hamdden.
Cofnodion asesiadau risg ac archwiliadau diogelwch; cymeradwyaeth benthyciadau; ffioedd a thaliadau a godir gan y

Cyngor; ffeil cofrestr o lwfansau aelodau.

NODER: Mae'r dogfennau canlynol wedi'u heithrio – pob gwybodaeth sensitif yn fasnachol megis dyfynbrisiau a thendrau, dogfennau benthyciadau a pholisïau yswiriant.

DOSBARTH: DATBLYGU A GWEITHREDU POLISI

DISGRIFIAD: Datganiadau polisi a gyhoeddir gan y Cyngor. Ymatebion y Cyngor i bapurau ymgynghori. Dadansoddiad o ymatebion a dderbynnir i ymgynghori â'r cyhoedd a wneir gan y Cyngor. Gweithdrefn ymdrin â chwynion.

DOSBARTH: CYLCHLYTHYRON/LLYTHYRON NEWYDDION Y CYNGOR

DISGRIFIAD: Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys unrhyw gylchlythyr/llythyr newyddion a gyhoeddir gan y Cyngor megis hysbysiad blynyddol treth y cyngor; canllaw i'r gymuned (neu gyhoeddiad cyffelyb a gomisiynir).

DOSBARTH: GWYBODAETH AM Y CELFYDDYDAU, ADLONIANT A THWRISTIAETH

DISGRIFIAD: Mae'r dosbarth hwn yn ymwneud yn unig â gwybodaeth a gynhyrchir gan y Cyngor.

DOSBARTH: MYNWENTYDD

DISGRIFIAD: Gwybodaeth gyffredinol am Fynwent Dosbarth Llanelli gan gynnwys cynlluniau a pholisïau cyffredinol. Cynllun partneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Gwledig Llanelli a Chyngor Tref Llanelli sy'n gyfrifol am redeg y fynwent, ac fe'i gweinyddir gan Gyd Awdurdod Claddu Llanelli.

NODER: Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i heithrio o'r cynllun: -
Pob dogfen sy'n ymwneud â cheisiadau unigol a chofrestriadau o dan y deddfau preifatrwydd a diogelu data.

DOSBARTH: GWERTH GORAU

DISGRIFIAD: Unrhyw wybodaeth sy'n cwmpasu'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i'w drethdalwyr i ddarparu gwasanaethau o safon am gost dderbyniol, parhau i wella darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, a threfnu'r cyfryw wasanaethau ar draws ardal y Cyngor.

NODER: Gan fod cyllideb y Cyngor yn llai na £1 miliwn, nid yw'r Cyngor

yn ddarostyngedig i gyfundrefn Gwerth Gorau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dilyn ysbryd ac egwyddor gwerth gorau. Nid yw'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun perfformiad gwerth gorau ac nid yw'n cael arolwg gwerth gorau.